

Sunday 26<sup>th</sup> October 2025  
+ Bible Sunday

The collect

Blessed Lord, you caused all holy scriptures to be written for our learning : help us so to hear them, to read, mark, learn and inwardly digest them that, through patience and the comfort of your holy word, we may embrace and for ever hold fast the hope of everlasting life, which you have given us in our Saviour Jesus Christ, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Isaiah  
(45.22-25)

Thus says the Lord: Turn to me and be saved, all the ends of the earth! For I am God, and there is no other. By myself I have sworn, from my mouth has gone forth in righteousness a word that shall not return: "To me every knee shall bow, every tongue shall swear."

Only in the Lord, it shall be said of me, are righteousness and strength; all who were incensed against him shall come to him and be ashamed. In the Lord all the offspring of Israel shall triumph and glory.

The Psalm  
(119.129-136)

Your testimonies / are / wonderful: there/fore my / soul /

keeps them. The opening of your / word gives / light: it gives under/standing / to the / simple.

I open my mouth and / draw in my / breath: as I / long for / your com/mandments. Turn to me and be / gracious / to me: as is your way with / those who / love your / name.

Order my steps / by your / word: and let no wickedness / have do/minion / over me. Redeem me from / earthly op/pressors: so that / I may / keep • your com/mandments.

Show the light of your countenance up/on your / servant: and / teach / me your / statutes. My eyes run down with / streams of / water: because the wicked / do not / keep your / law.

The reading from Romans  
(15.1-6)

We who are strong ought to put up with the failings of the weak, and not to please ourselves. Each of us must please our neighbour for the good purpose of building up the neighbour. For Christ did not please himself; but, as it is written, "The insults of those who insult you have fallen on me."

For whatever was written in former days was written for our instruction, so that by steadfastness and by the encouragement of the scriptures we might have hope.

May the God of steadfastness and encouragement grant you to live in harmony with one another, in accordance with Christ Jesus, so that together you may with one voice glorify the God and Father of our Lord Jesus Christ.

The reading from the Gospel  
according to Saint Luke  
(4.16-24)

When Jesus came to Nazareth, where he had been brought up, he went to the synagogue on the sabbath day, as was his custom. He stood up to read, and the scroll of the prophet Isaiah was given to him.

He unrolled the scroll and found the place where it was written: "The Spirit of the Lord is upon me, because he has anointed me to bring good news to the poor. He has sent me to proclaim release to the captives and recovery of sight to the blind, to let the oppressed go free, to proclaim the year of the Lord's favour."

And he rolled up the scroll, gave it back to the attendant, and sat down. The eyes of all in the synagogue were fixed on him. Then he began to say to them, "Today this scripture has been fulfilled in your hearing."

All spoke well of him and were amazed at the gracious words that came from his mouth. They said, "Is not this Joseph's son?"

He said to them, "Doubtless you will quote to me this proverb, "Doctor, cure yourself!" And you will say, "Do here also in your home town the things that we have heard you did at Capernaum." ' And he said, "Truly I tell you, no prophet is accepted in the prophet's home town."

The collect following communion

Gracious God, your Son Jesus Christ fed the hungry with the bread of his life and the word of his kingdom: renew your people with your heavenly grace, and in all our weakness sustain us by your true and living bread; who is alive and reigns, now and for ever. AMEN



Colect y dydd

O Arglwydd bendigaid, a beraist fod yr holl ysgrythur lân yn ysgrifenedig i'n haddysgu ni, cynorthwya ni i wrando arni, ei darllen, ei chwilio, ei dysgu ac ymborthi arni fel, trwy amynedd, a chymorth dy air sanctaidd y cofleidiwn ac y daliwn ein gafael yn wastadol yng ngobaith y bywyd tragwyddol, a roddaist i ni yn ein Hiachawdwr Iesu Grist, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

**Darlleniad o Eseia**  
(45.22-25)

Chwi, holl gyrrau'r ddaear, edrychwch ataf i'ch gwaredu, canys myfi wyf Dduw, ac nid oes arall. Ar fy llw y tyngais; gwir a ddaeth allan o'm genau, gair na ddychwel: i mi bydd pob glin yn plygu a phob tafod yn tyngu.

Fe ddywedir amdanaf, 'Yn ddiau, yn yr ARGLWYDD y mae cyfiawnder a nerth'. Bydd pob un a ddigiodd wrtho yn dod ato ef mewn cywilydd. Cyfiawnheir holl deulu Israel, ac ymhyfrydant yn yr ARGLWYDD.

**Y Salm**  
(119.129-136)

Y mae dy farnedigaethau'n rhyfeddol; am hynny yr wyf yn eu

cadw. Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo ac yn rhoi deall i'r syml.

Yr wyf yn agor fy ngheg mewn blys, oherwydd yr wyf yn dyheu am dy orchmynion. Tro ataf a bydd drugarog, yn ôl dy arfer i'r rhai sy'n caru dy enw.

Cadw fy nghanu yn sicr fel yr addewaist, a phaid â gadael i ddrygioni fy meistrolï. Rhyddha fi oddi wrth ormes dynol, er mwyn imi ufuddhau i'th ofynion di.

Bydded llewyrch dy wyneb ar dy was, a dysg i mi dy ddeddfau. Y mae fy llygaid yn ffrydio dagrau am nad yw pobl yn cadw dy gyfraith.

**Darlleniad o Rhufeiniaid**  
(15.1-6)

Y mae'n ddyletswydd arnom ni, y rhai cryf, oddef gwendidau'r rhai sy'n eiddil eu cydwybod, a pheidio â'n plesio ein hunain. Y mae pob un ohonom i blesio ein cymydog, gan anelu at yr hyn sydd dda er adeiladu ein gilydd. Oherwydd nid ei blesio ei hun a wnaeth Crist. I'r gwrthwyneb, fel y mae'n ysgrifenedig: "Y mae gwaradwydd y rhai oedd yn dy waradwyddo di wedi syrthio arnaf fi."

Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith.

A rhodded Duw, ffynhonnell pob dyfalbarhad ac anogaeth, i chwi fod yn gytûn eich meddwl ymhlith eich

gilydd, yn ôl ewyllys Crist Iesu, er mwyn ichwi, yn unfryd ac yn unllais, ogoneddu Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

**Gwrandewch Efengyl Crist**  
**yn ôl Sant Luc**  
(4.16-24)

Daeth i Nasareth, lle yr oedd wedi ei fagu. Yn ôl ei arfer aeth i'r synagog ar y dydd Saboth, a chododd i ddarllen. Rhoddwyd iddo lyfr y proffwyd Eseia, ac agorodd y sgrôl a chael y man lle'r oedd yn ysgrifenedig: "Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd."

Wedi cau'r sgrôl a'i rhoi'n ôl i'r swyddog, fe eisteddodd; ac yr oedd llygaid pawb yn y synagog yn syllu arno. A'i eiriau cyntaf wrthynt oedd: "Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r Ysgrythur hon wedi ei chyflawni."

Yr oedd pawb yn ei gymeradwyo ac yn rhyfeddu at y geiriau grasusol oedd yn dod o'i enau ef, gan ddweud, "Onid mab Joseff yw hwn?"

Ac meddai wrthynt, "Diau yr adroddwch wrthyf y ddihareb, 'Feddyg, iachâ dy hun', a dweud, 'Yr holl bethau y clywsom iddynt ddigwydd yng Nghapernaum, gwna hwy yma hefyd ym mro dy febyd.'"

Ond meddai, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyfch nad oes dim croeso i'r un proffwyd ym mro ei febyd.

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw grasol, rhoes dy Fab Iesu Grist fara ei fywyd a gair ei deyrnas yn fwyd i'r newynog : adnewyddu dy bobl â'th ras nefol, ac yn ein holl wendid cynnal ni trwy dy wir a'th fywiol fara, ef sy'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr ac am byth. AMEN

